**Bwrdd Cyflawni BGC Caerdydd**
**Dydd Gwener 25 Ionawr 2019, 1 - 2.30 pm**
**Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd**

| | |
|---|---|
| **<u>Mynychwyr</u>** | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Paul Orders (Cadeirydd) | Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF) |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP CaF) |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Dai Bents | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Sheila Hendrickson-Brown (Is-gadeirydd) | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| | Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throsedd |
| Mark Brace | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Stephen Jones | Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Lisa Connolly | Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru |
| Jo Salway | |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Hannah Williams | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Victoria Harris | Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| **Mynychwyr eraill:** | |
| Gareth Newell | |
| Nathan Swain | Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, CC |
| Clive Bailey (Clerc) | Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Sue Toner | Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC |
| Suzanne Wood | Prif Arbenigwr Hybu Iechyd |
| | Ymgynghorydd ym Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a Chyflwyniadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.<br><br>Nododd y Cadeirydd eitem ychwanegol ar Wersyllfannau Pebyll yng nghanol y ddinas i'w thrafod ar ddiwedd y cyfarfod. | |
| **2.** | **Cofnodion a chamau gweithredu drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - 4 Hydref 2018**<br>Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod.<br><br>**Cofnodion a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - 20 Tachwedd 2018**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Diweddariad ar ansawdd aer i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf<br>• Manylebau gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau newydd i gael eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br>• Datganiad ardal i gael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol<br>• Baich Clefyd i gael ei ddileu o'r Blaengynllun | **Ysgrifenyddiaeth**<br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **3.** | **WBO5 Cefnogi Pobl Allan o Dlodi: Pwysau Iach**<br><br><u>Cynllun Gweithredu Strategol Pwysau Iach</u><br><br>Amlinellodd Fiona Kinghorn a Suzanne Wood (Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd) y tueddiadau cyfredol mewn gordewdra. Bydd y cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar yr hyn y profir ei fod yn helpu i gael a chynnal pwysau iach (symud yn fwy a bwyta'n iach).<br><br>Nodwyd y gall cysylltu materion a chydweithio'n fwy ar negeseuon fod yn fwy effeithiol nag ymdrechion unigol - er enghraifft mae hyrwyddo buddion iechyd teithio llesol wedi cael effaith yn syth o gymharu â blynyddoedd o ganolbwyntio'n bennaf ar leihau carbon.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Aelodau'r BGC i gymryd rhan mewn digwyddiadau 'Symud Mwy, Bwyta'n Dda' ac annog staff i gymryd rhan.<br>• Aelodau'r BGC i hwyluso trafodaeth am hysbysebu a marchnata bwyd a diod.<br>• Y BGC i ystyried y dyhead Dinas Gall o Ran Siwgr yn rhan o'r gwaith Pwysau Iach.<br>• Aelodau'r BGC i nodi camau gweithredu ychwanegol i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Pwysau Iach Strategol. | **Pawb**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Pawb**<br><br>**Pawb** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ystyried cysylltiadau â'r Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol.<br>• Cwblhau'n lleol y Cynllun Gweithredu Pwysau Iach Strategol drafft yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru a dechrau ei roi ar waith.<br><br><u>Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd – Symud Ymlaen. Symud Mwy ac yn Fwy Aml</u><br><br>Cyflwynodd Sue Toner (Prif Arbenigedd Hybu Iechyd) ar strwythur yr adroddiad. Nod yr adroddiad fydd:<br>• codi cyfraddau gweithgarwch corfforol yn unol â'r gorau yn y DU (ar hyn o bryd mae Caerdydd yn 16.3% o dan Bryste),<br>• gyrru a llywio'r camau o fewn Cynllun Gweithredu Pwysau Iach Strategol Caerdydd a'r Fro,<br>• llywio'r gwaith o weithredu'r Cynlluniau Llesiant<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Cyfleoedd i wella gweithgarwch corfforol i gael eu bwydo i waith ar y Cynllun Gweithredu Pwysau Iach Strategol<br>• Y BGC i drafod canlyniadau'r sesiwn mewn cyfarfod yn y dyfodol. | **Fiona Kinghorn Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**BIP CaF/ Ysgrifenyddiaeth**<br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **4.** | **Trafnidiaeth Gynaliadwy - Ymrwymiadau Sefydliadol**<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Pecyn cymorth i gael ei ddatblygu i'w gyfathrebu ar draws sefydliadau BGC.<br>• Cwblhau'r Siartr ac ymrwymiadau i gael eu hystyried yng nghyfarfod llawn nesaf y BGC. | **Tom Porter**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth / Tom Porter** |
| **5.** | **Sganio'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>*<u>Digwyddiad: 'Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus: Myfyrio ar Drefniadau sy'n Dod i'r Amlwg'</u>*<br>Dywedodd Paul Orders fod trafodaeth gychwynnol wedi'i chynnal gyda Bro Morgannwg i ystyried alinio blaenoriaethau. Y bwriad yw cael Cynlluniau Llesiant amlwg, ond alinio mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws BGCau a Chynllun Ardal y BPRh.<br><br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Ysgrifenyddiaeth i gyd-lynu mynychwyr o FGC Caerdydd.<br><br>*<u>Cyfarfod Brexit y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a chamau gweithredu</u>*<br>**CAM GWEITHREDU:**<br>• Dyddiadau pwysig i gael eu cylchredeg i gyfarfod gweithredol pythefnosol y Cyngor ar Brexit. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| | *Blaengynllun*<br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Eitem ar faethu i gael ei hoedi a'i hystyried ochr yn ochr â diwygio'r Gwasanaethau Plant yn ehangach.<br>• Cynnwys gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg.<br><br>*Unrhyw fusnes arall*<br>Lansiad ymgynghoriad Cerrig Milltir Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – w/d 29 Ionawr 2019. | **Ysgrifenyddiaeth**<br><br>**Ysgrifenyddiaeth** |
| **6.** | **Gwersyllfannau Pebyll**<br><br>Dywedodd Sarah McGill fod cyfarfod aml-asiantaeth wedi'i gynnal i drafod y gwersyllfannau pebyll sy'n ymddangos yng nghanol dinas Caerdydd. Mae briffiau aml-asiantaeth dyddiol wedi'u rhoi ar waith ac mae safbwynt ffurfiol i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor ddydd Iau 31 Ionawr 2019. | |
| | **Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf:**<br><br>• Bwrdd Cyflawni'r BGC - 11 Ebrill 2019<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd - 23 Ebrill 2019 | |